

MARC ANSAWDD ADDYSG GREFYDDOL:

*cydnabod arfer rhagorol
mewn astudio crefydd a bydolygon*

Meini Prawf y Dyfarniad ar gyfer Medi 2020

© Cyngor AG Cymru a Lloegr 2020

Llinyn 1 Dysgu

EFYDD	ARIAN	AUR
1. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i ymateb ac i ofyn cwestiynau dwfn, a/neu archwilio syniadau mawr, ac maent yn dechrau ffurfio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol drwy ymholiad a thrafodaeth	1. Mae dysgwyr yn ymateb i gwestiynau dwfn a/neu syniadau mawr yn feddylgar, gan ddangos parodrwydd i fynd yn ddyfnach i'w gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol	1. Mae dysgwyr yn dangos hyd a lled eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, gan sylweddoli'r dylanwad y mae bydolygon crefyddol ac anghrefyddol wedi'i gael ar ddatblygiad dynol a diwylliannau
2. Gall dysgwyr gysylltu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth â meysydd eraill y cwricwlwm ac â'r gymuned leol	2. Gall dysgwyr gysylltu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth â materion cenedlaethol neu ddigwyddiadau cyfoes	2. Gall dysgwyr wneud cysylltiad rhwng eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth â chwestiynau moesegol ac athronyddol, materion cyfoes a digwyddiadau byd-eang
3. Mae dysgwyr yn defnyddio cyfleoedd i archwilio bydolygon crefyddol ac anghrefyddol drwy amrywiaeth o ffynonellau, mynegiant a chyfryngau creadigol	3. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i archwilio bydolygon crefyddol ac anghrefyddol, yn cynnwys eu rhai eu hunain, drwy amrywiaeth o ffynonellau a chyfryngau	3. Mae dysgwyr yn mynegi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am fydolygon crefyddol ac anghrefyddol, yn cynnwys eu rhai eu hunain, drwy amrywiaeth o gyfryngau a dulliau cyfathrebu
4. Mae dysgwyr yn cael cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy brofiadau personol yn cynnwys pobl a lleoedd o amrywiaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol	4. Mae dysgwyr yn dangos eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy eu hymwybyddiaeth o sgwrs oddi mewn ac ar draws bydolygon crefyddol ac anghrefyddol	4. Mae dysgwyr yn dangos eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy eu hymwneud cadarnhaol men sgwrs am amrywiaeth, oddi mewn ac ar draws bydolygon crefyddol ac anghrefyddol
5. Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da o safbwynt eu hoed, eu gallu a'u dysgu blaenorol	5. Mae dysgu'n cael ei adolygu a'i asesu'n rheolaidd, ac mae'r canlyniadau'n dangos fod dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn o safbwynt eu hoed, eu gallu a'u dysgu blaenorol	5. Mae dysgu'n cael ei adolygu a'i asesu'n rheolaidd, ac mae'r canlyniadau i rai grwpiau ac unigolion yn eithriadol o safbwynt eu hoed, eu gallu a'u dysgu blaenorol
6. Mae dysgwyr yn trafod y camau nesaf yn eu dysgu gyda'i gilydd a gyda'u hathro	6. Mae dysgwyr yn dangos tystiolaeth o ymholiad annibynnol a dysgu cysylltiedig, y tu mewn neu'r tu allan i'r ysgol	6. Mae dysgwyr yn dechrau cyd-ddylunio eu dysgu eu hunain er mwyn hyrwyddo eu cynnydd a'u cyflawniad
7. Mae dysgwyr yn rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yn y dosbarth ac yn gallu rhoi a derbyn adborth i'w gilydd yn hyderus	7. Mae dysgwyr yn rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu yng nghymuned ehangach yr ysgol	7. Mae dysgwyr yn dathlu ac yn rhannu'r hyn y maent wedi'i ddarganfod o fewn y gymuned addysgol ehangach

Llinyn 2 Addysgu

EFYDD	ARIAN	AUR
1. Mae gan athrawon wybodaeth pwnc gadarn ym meysydd perthnasol y cwricwlwm a ddysgîr	1. Mae gan athrawon wybodaeth pwnc effeithiol ar draws y cwricwlwm pwnc cyfan	1. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r dysgwyr ac mae arweinydd y pwnc yn dangos gwybodaeth eithriadol am y pwnc
2. Mae gwaith cynllunio athrawon yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr ac yn hybu dysgu dyfnach yn y pwnc	2. Mae gwaith cynllunio athrawon yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr ac yn galluogi'r rhan fwyaf o ddysgwyr i ddyfnhau eu dealltwriaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol	2. Mae athrawon yn adeiladu eu cynllunio ar wybodaeth flaenorol y dysgwyr ac mae hyn yn galluogi'r dysgwyr i gyd i ddyfnhau eu dealltwriaeth o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol
3. Cydnabyddir fod ansawdd yr addysgu yn y rhan fwyaf o wersi yn effeithiol	3. Cydnabyddir fod ansawdd yr addysgu yn y rhan fwyaf o wersi yn hynod o effeithiol	3. Cydnabyddir fod ansawdd yr addysgu drwyddi draw yn eithriadol
4. Caiff gwahanol strategaethau addysgu sy'n hyrwyddo dyfnder dysgu addas eu treialu a'u hadolygu gan bob un o'r staff	4. Caiff strategaethau addysgu seiliedig ar ymchwil sy'n hyrwyddo dyfnder dysgu addas a chwilfrydedd deallusol am ddysgu eu defnyddio gan y rhan fwyaf o athrawon	4. Caiff strategaethau addysgu seiliedig ar ymchwil sy'n sicrhau dyfnder dysgu addas eu defnyddio gan athrawon i sicrhau chwilfrydedd ac ysgolheictod deallusol
5. Mae athrawon yn defnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt i osod dilyniannau dysgu addas o oedran a rheolir data asesu yn dda i olrhain cynnydd grŵp ac unigolion, ac i hybu cyflawniad gan bawb yn y dyfodol	5. Mae athrawon yn defnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt i osod dilyniannau dysgu addas i oedran a data asesu yn dda i olrhain cynnydd grŵp ac unigolion, ac i sicrhau cyflawniad priodol i grwpiau penodol ac unigolion	5. Mae athrawon yn defnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt i gynllunio a rheolir data asesu yn dda i olrhain cynnydd grŵp ac unigolion, ac i sicrhau cyflawniad arbennig i grwpiau penodol ac unigolion
6. Mae athrawon yn creu amgylcheddau addas llawn parch lle mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n hyderus i gytuno, neu gytuno i anghytuno	6. Mae athrawon yn creu amgylcheddau addas llawn parch lle mae'r dysgwyr i gyd yn teimlo'n hyderus i gytuno, neu gytuno i anghytuno	6. Mae athrawon a dysgwyr yn creu amgylcheddau addas llawn parch lle caiff ystod o faterion a phynciau dadleuol eu trafod a'u beirniadu
7. Mae athrawon yn cynllunio dysgu sy'n hyrwyddo meddwl ar lefel uchel	7. Mae athrawon yn cynllunio dysgu sy'n sicrhau meddwl ar lefel uchel a dyfnder dealltwriaeth addas	7. Mae cynllunio athrawon yn sicrhau meddwl ar lefel uchel a dyfnder sicr o ddealltwriaeth

Llinyn 3 Cwricwlwm

EFYDD	ARIAN	AUR
1. Mae'r cwricwlwm a'r cynlluniau ysgol yn bodloni'r gofynion maes llafur priodol i bob grŵp o ddysgwyr	1. Mae'r cwricwlwm yn cwmpasu pynciau perthnasol a deunydd priodol y tu hwnt i'r maes llafur gofynnol er mwyn ymateb i anghenion a chwestiynau'r rhan fwyaf o ddysgwyr	1. Mae'r cwricwlwm yn addysgiadol ac yn greadigol gan arwain at ymgysylltiad llawn pob grŵp o ddysgwyr ar draws yr ystod oed a gallu
2. Mae'r cwricwlwm yn gwneud cyfraniad cydlynus i gwricwlwm ehangach yr ysgol drwy gynllunio creadigol sy'n gysylltiedig â meysydd gwybodaeth a dealltwriaeth eraill	2. Mae'r cwricwlwm yn gwneud cyfraniad sylweddol i gwricwlwm ehangach yr ysgol ac mae iddo broffil uchel ac amlwg	2. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddeall a'i werthfawrogi ar draws yr ysgol ac o fewn y gymuned ysgol ehangach
3. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn cynnig cyfleoedd diddorol ac mae hyn yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr	3. Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd i ymateb i bynciau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol yn y gymuned leol ac mae hyn yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr	3. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys lle i ymateb i faterion cenedlaethol a byd-eang sy'n gysylltiedig â bydolygon crefyddol ac anghrefyddol ac mae hyn yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr
4. Mae nodau ac amcanion y cwricwlwm wedi cael eu hegluro'n llawn i bawb sy'n addysgu'r pwnc	4. Caiff deilliannau ac effaith y cwricwlwm eu rhannu â'r gymuned ysgol ehangach	4. Caiff deilliannau ac effaith y cwricwlwm eu rhannu ag ysgolion eraill a rhwydweithiau/mudiadau eraill
5. Mae'r cwricwlwm yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau addas a ganfuwyd ac a fwriadwyd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gysyniadol o fydolygon crefyddol ac anghrefyddol	5. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ddysgu mewn ffyrdd hyblyg ond a adnabuwyd yn glir er mwyn sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth gysyniadol y rhan fwyaf o ddysgwyr	5. Mae'r cwricwlwm yn cael effaith weladwy, fuddiol a pharhaol ar wybodaeth a dealltwriaeth pob grŵp o ddysgwyr
6. Gweithredir y cwricwlwm i hybu ymhlith athrawon a dysgwyr ddealltwriaeth o amrywiaeth mewn bydolygon crefyddol ac anghrefyddol	6. Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo dealltwriaeth gywir o amrywiaeth o fewn crefyddau unigol a bydolygon anghrefyddol	6. Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo dealltwriaeth o gymhlethdodau hunaniaethau crefyddol ac anghrefyddol
7. Mae'r cwricwlwm yn cyfrannu at waith yr ysgol gyfan i herio rhagfarn a gwahaniaethu ac i hybu gwerthoedd y cytunir arnynt a'u rhannu	7. Mae'r cwricwlwm yn helpu athrawon a dysgwyr i adnabod stereoteipiau o bobl grefyddol ac anghrefyddol ac i herio gwahaniaethu	7. Mae'r cwricwlwm yn arloesol yn ei agweddau a chynhwysiad ac amrywiaeth ac yn cael effaith amlwg

Llinyn 4 Arweinyddiaeth

EFYDD	ARIAN	AUR
1. Mae gan y pwnc arweinydd effeithiol sy'n meddu ar fwriad a rhesymeg glir dros gynllunio cwricwlwm, addysgu, a dysgu, ac sy'n cyfleu hyn i athrawon eraill y pwnc	1. Mae'r arweinydd pwnc yn dangos bwriad clir, trefnus, a datblygedig ar gyfer y dysgu a'r addysgu sydd wedi'i integreiddio'n llawn ym mhob agwedd o ddylunio'r cwricwlwm	1. Mae'r arweinydd pwnc yn dangos bwriad dwfn a chadarn ar gyfer dysgu ac addysgu sy'n llifo drwy gynllunio a gweithredu dyluniad y cwricwlwm
2. Mae gan y pwnc gynllun cadarn ar gyfer hunan-arfarnu a datblygu ac yn sail iddo mae blaenoriaethau'r ysgol gyfan, y maes llafur priodol a barn y dysgwyr	2. Mae'r pwnc yn cyfrannu at flaenoriaethau datblygu ehangach o fewn agenda a chynllunio'r ysgol	2. Mae arweinyddiaeth broffesiynol y pwnc wedi arwain at welliannau a datblygiad drwy'r ysgol
3. Mae gan y pwnc adnoddau o'i gymharu â phynciau tebyg yn y cwricwlwm	3. Mae staff a disgyblion yn cydnabod ansawdd adnoddau pwnc ac yn eu defnyddio'n effeithiol	3. Mae'r arweinydd pwnc yn plannu systemau o ansawdd uchel i sicrhau cynaliadwyedd a chynllunio olyniaeth i'r pwnc ac mae uwch arweinwyr yn sicrhau fod y staff perthnasol i gyd yn cael DPP priodol
4. Mae'r holl bolisiau ysgol sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn cael eu mynegi'n glir ac i gyd yn eu lle	4. Mae'r holl bolisiau ysgol sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, eu hasesu a'u rhoi ar waith gan y staff	4. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn cymryd rhan mewn gwneud cynlluniau blaengar a chreadigol i ddatblygu'r pwnc i'r dyfodol yng ngoleuni sgysiau cenedlaethol
5. Mae gwaith yr arweinydd pwnc yn dangos ymrwymiad i ddysgu am ymarfer y tu allan i'w cyd-destun eu hunain, a chaiff hyn ei gydnabod gan yr uwch arweinwyr a'r llywodraethwyr.	5. Caiff yr arweinydd pwnc eu cefnogi gan uwch arweinwyr a llywodraethwyr mewn datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol a diweddar, mae'n cymryd rhan mewn mudiadau lleol perthnasol a rhwydweithiau datblygiad proffesiynol	5. Mae llywodraethwyr ac uwch arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod y pwnc yn ddiogel, a bod ganddo broffil uchel yn yr ysgol ac yn y gymuned leol ehangach
6. Mae'r arweinydd pwnc yn cydnabod y cyfraniad a wneir gan y pwnc i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr ac i agweddau eraill o gynllun datblygu/blaenoriaethau'r ysgol	6. Mae'r arweinydd pwnc yn sicrhau fod cyfraniad y pwnc i flaenoriaethau ehangach yr ysgol yn cael ei fonitro a'i adolygu	6. Mae gan yr arweinydd pwnc agwedd effeithiol iawn at ddatblygiad staff cyfan i gefnogi blaenoriaethau ysgol ac i helpu ysgolion eraill yn lleol, yn genedlaethol a/neu'n rhyngwladol
7. Mae'r arweinydd pwnc yn gwybod am safonau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol ac mae'n defnyddio dulliau monitro addas y cytunwyd arnynt	7. Caiff gwaith monitro'r arweinydd pwnc ei ategu drwy adnabod yn glir yr anghenion datblygiad proffesiynol sydd gan unigolion a grwpiau o staff	7. Effaith monitro ac arweinyddiaeth gref yw tîm addysgu hyderus a chymwys iawn
8. Ymrwymiad i ddysgu eu hunain am ymarfer y tu allan i'w cyd-destun nhw	8. Ymrwymiad i gysylltu ag ymarferwyr AG eraill	8. Ymrwymiad i gefnogi grwpiau lleol a/neu ranbarthol